OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 No. 2737

# Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2009

## RHAN 4

GRANTIAU A BENTHYCIADAU AT FFIOEDD

PENNOD 1

DARPARIAETH GYFFREDINOL

**Cymorth at ffioedd yn gyffredinol**

**13.**—(1) Ni chaiff cymorth o dan y Rhan hon mewn perthynas â blwyddyn academaidd fod yn fwy na'r ffioedd sy'n daladwy gan y myfyriwr mewn perthynas â'r flwyddyn academaidd honno.

(2) At ddibenion cyfrifo swm y cymorth at ffioedd o dan y Rhan hon, nid yw sefydliad sy'n darparu cyrsiau a ddynodir gan reoliad 4 o Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Dawnsio a Drama) 1999(**1**) i'w ystyried yn sefydliad a ariennir yn gyhoeddus am ddim rheswm arall ond am ei fod yn cael cronfeydd cyhoeddus gan gorff llywodraethu sefydliad addysg uwch yn unol ag adran 65(3A) o Ddeddf Addysg Bellach ac Addysg Uwch 1992(**2**).

(3) Ymdrinnir â myfyriwr y mae paragraff (4) yn gymwys iddo fel pe bai'n bresennol ar y cwrs dynodedig at ddibenion cymhwyso ar gyfer cymorth at ffioedd.

(4) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i'r canlynol—

(a) myfyriwr cwrs gradd cywasgedig;

(b) myfyriwr anabl—

(i) nad yw'n fyfyriwr cwrs gradd cywasgedig; a

(ii) sy'n ymgymryd â chwrs dynodedig yn y Deyrnas Unedig ond nad yw'n bresennol am na all fod yn bresennol am reswm sy'n ymwneud â'i anabledd.

**Myfyrwyr sy'n dod yn gymwys yn ystod blwyddyn academaidd**

**14.** Os bydd unrhyw un o'r digwyddiadau a restrir yn rheoliad 15 yn digwydd yn ystod blwyddyn academaidd—

(a) gall myfyriwr fod â hawl i gael grantiau a benthyciadau o dan y Rhan hon mewn perthynas â'r flwyddyn academaidd honno ar yr amod bod y digwyddiad perthnasol wedi digwydd yn ystod tri mis cyntaf y flwyddyn academaidd; a

(b) nid yw'r grantiau a'r benthyciadau hyn ar gael mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn academaidd sy'n dechrau cyn y flwyddyn academaidd y digwyddodd y digwyddiad perthnasol ynddi.

(**1**) O.S. 1999/2263, a ddiwygiwyd gan O.S. 2001/2893.
(**2**) 1992 p. 13; mewnosodwyd adran 65(3A) gan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (p. 30), adran 27.

**Digwyddiadau**

**15.** Y digwyddiadau yw—

(a) bod cwrs y myfyriwr yn dod yn gwrs dynodedig;

(b) bod y myfyriwr, ei briod, ei bartner sifil neu ei riant yn cael ei gydnabod fel ffoadur neu ei fod yn dod yn berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros;

(c) bod gwladwriaeth yn ymaelodi â'r Gymuned Ewropeaidd os yw'r myfyriwr yn wladolyn o'r wladwriaeth honno neu'n aelod o deulu (fel y'i diffinnir yn Rhan 1 o Atodlen 1) gwladolyn o'r wladwriaeth honno;

(ch) bod y myfyriwr yn dod yn aelod o deulu (fel y'i diffinnir yn Rhan 1 o Atodlen 1) gwladolyn o'r GE;

(d) bod y myfyriwr yn ennill yr hawl i breswylio'n barhaol;

(dd) bod y myfyriwr yn dod yn blentyn i weithiwr Twrcaidd;

(e) bod y myfyriwr yn dod yn berson a ddisgrifir ym mharagraff 6(1)(a) o Atodlen 1; neu

(f) bod y myfyriwr yn dod yn blentyn i wladolyn Swisaidd.